# Paratoi a gofalu am harnais ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi a gofalu am harnais ceffylau. Mae'n cynnwys gallu adnabod y rhannau, cydosod a glanhau setiau o harneisiau ar gyfer eu defnyddio. Mae'r safon yn cynnwys cynnal gwiriadau arferol am draul, rhwygiadau neu niwed i'r harnais, gan atal eitemau o'r fath rhag cael eu defnyddio a'u hadnewyddu yn unol â'r cyfarwyddiadau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi a chydosod setiau o harneisiau ceffylau o gydrannau
3. glanhau a gofalu am setiau o harneisiau ceffylau i safon sy'n briodol ar gyfer y defnydd a fwriedir
4. gwirio harneisiau am arwyddion o draul neu niwed cyn ac ar ôl eu defnyddio
5. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw feysydd sydd yn peri pryder
6. adnewyddu eitemau anaddas o harneisiau yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. glanhau a storio'r harnais ar ôl ei ddefnyddio
8. defnyddio deunyddiau glanhau yn unol â'r cyfarwyddiadau
9. gwaredu gwastraff yn gywir
10. cynnal eich diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. swyddogaeth a defnydd pob cydran o set o harneisiau ceffylau
3. eich cyfrifoldebau mewn perthynas â gwirio harnais am draul neu niwed cyn ac ar ôl ei ddefnyddio, gan hysbysu ynghylch addasrwydd yr harnais ar gyfer ei ddefnyddio, ac adnewyddu unrhyw eitemau anaddas yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. sut i adnabod arwyddion o draul neu niwed i'r harnais
5. peryglon defnyddio eitemau o harnais wedi treulio, rhwygo neu wedi eu niweidio
6. dulliau o lanhau'r harnais i'r safon ofynnol ar gyfer y defnydd y'u bwriadwyd
7. sut i ofalu am harnais ar ôl ei ddefnyddio, yn cynnwys gofalu am harnais gwlyb
8. dulliau o storio harnais pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
9. y dulliau cywir ar gyfer gwaredu gwastraff
10. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

# Paratoi a gofalu am harnais ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq238 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; harneisiau; iechyd a lles anifeiliaid |